# Cynnal iechyd caeau chwaraeon

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn cynnal iechyd caeau chwaraeon er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer chwarae.

Mae'n cynnwys ymdrin â chwyn, mwsogl, plâu, clefydau a diffygion eraill.

Mae ond yn addas ar gyfer y rheiny all wneud y gwaith a ddisgrifir o dan oruchwyliaeth gyfyngedig yn unig.

Os ydych yn gweithio gyda chemegau neu beiriannau, dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac yn gwella ei werth o ran natur, cadwraeth a hamdden.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. bod yn ymwybodol o'r peryglon sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd i'w gyflawni
2. gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas
3. adnabod amodau sydd yn bygwth iechyd y cae chwaraeon a hysbysu ynghylch y rhain yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
4. dewis, defnyddio, cynnal a storio offer a chyfarpar sy'n ofynnol ar gyfer cynnal iechyd caeau chwaraeon yn ddiogel ac yn gywir
5. rhoi triniaethau ar gaeau chwaraeon yn ddiogel ac yn gywir yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
6. ymdrin â gwastraff yn ddiogel ac yn gywir yn unol â'r cyfarwyddiadau
7. adfer safle'r cae chwaraeon i gyflwr glân a thaclus
8. cynnal iechyd cae chwaraeon mewn ffordd sydd yn atal niwed i'r ardal gyfagos, ac yn cadw llygredd amgylcheddol mor isel â phosibl
9. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y peryglon sydd yn gysylltiedig â chynnal iechyd cae chwaraeon
2. y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3. y rhesymau dros reoli chwyn, plâu, clefydau, mwsogl a diffygion ar arwynebeddau chwaraeon
4. yr amodau sydd yn gallu effeithio ar iechyd cae chwaraeon
5. pryd a phwy i'w hysbysu ynghylch amodau sy'n effeithio ar iechyd cae chwaraeon
6. y mathau o offer a chyfarpar sy'n ofynnol ar gyfer cynnal iechyd cae chwaraeon a sut i baratoi, defnyddio a chynnal y rhain yn ddiogel ac yn gywir
7. effeithiau triniaethau caeau chwaraeon a sut i ddefnyddio triniaethau yn gywir
8. pwysigrwydd dilyn y gweithdrefnau cymeradwy ar gyfer triniaethau caeau chwaraeon
9. pam dylid cymhwyso'r triniaethau mewn ffordd amserol
10. defnyddio a chymhwyso plaladdwyr gwahanol wrth gynnal iechyd caeau chwaraeon
11. sut i drin, cludo a gwaredu gwastraff yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol
12. sut i lanhau a storio offer a chyfarpar sydd eu hangen i reoli amodau sy'n effeithio ar iechyd caeau chwaraeon a pham mae mesurau diogelwch yn bwysig
13. effaith bosibl eich gwaith ar yr amgylchedd a ffyrdd o'i leihau
14. pwysigrwydd adfer safle'r cae chwaraeon i gyflwr glân a thaclus
15. y ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer perthnasol sydd yn llywodraethu'r defnydd o driniaethau ar gyfer caeau chwaraeon
16. pwysigrwydd dilyn arfer gorau amgylcheddol ac ecolegol i leihau effaith eich gwaith ar yr amgylchedd
17. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol perthnasol

## Cwmpas/Ystod

A. adnabod a thrin y cyflyrau canlynol wrth gynnal iechyd caeau chwaraeon:

1. chwyn
2. plâu
3. clefydau
4. diffygion
5. mwsogl

B. defnyddio'r triniaethau canlynol wrth gynnal iechyd caeau chwaraeon:

1. ffisegol
2. cemegol
3. triniaethol

## Geirfa

Rheoli plâu, clefydau a diffygion, chwyn a mwsogl mewn caeau chwaraeon trwy ddulliau ffisegol, triniaethol a chemegol gan ddefnyddio offer llaw ac wedi ei bweru.

Manylebau: darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (GGS), canllawiau cynhyrchwyr, polisïau sefydliadol

Cynnal iechyd caeau chwaraeon

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANH25 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofalwr Tir, Gofalwr y Grîn |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | chwaraeon; cae; glaswellt; maes; cae; tir, cwrs golff |